Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fercher, 19 Mehefin 2024, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENT**

Y Cynghorydd Ms. J. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs. J. Chamberlain-Jones, K.R. Jones, Mrs D. L. King, Ms. V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Y Cynghorydd A. James (Arsylwi)
Mr. G.J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**4. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs. M. Blakely-Walker, Mrs. J. Evans, Miss S. Fleming, B. Mellor a Ms R. Roberts.

**5. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 5.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 72-72 Fforddlas, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Cefndy<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms. S. Fleming<br>Mrs. D. King<br>Ms. R. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0922<br><br>**DISGRIFIAD**: Adeiladu adeilad deulawr fel swyddfa dosbarthu tacsis (Defnydd Dosbarth Sui Generis), adeiad gweithdy deulawr (Defnydd Dosbarth B2), yn cynnwys ffurfio mynedfa i gerbydau a gosod system camerâu teledu cylch cyfyng a chais ôl-weithredol i ddymchwel yr adeilad a oedd yn bodoli gosod ffens a gwaith cysylltiedig. |

| | |
|---|---|
| | **YMGEISYDD:** Peake, Zenith Logistic Consultants Ltd, o'r cyfeiriad uchod.<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad.* |
| 5.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 51 Ffordd Wellington, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1029<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid defnydd o siop (Defnydd Dosbarth A1) i gyfleuster tecawê bwyd poeth (Defnydd Dosbarth A3)<br><br>**YMGEISYDD:** Mr M. Malik o'r cyfeiriad uchod.<br><br>***PENDERFYNIAD****: Gwrthwynebiad ar y sail isod:*<br><br>*Mae'r cais yn berthnasol i lawr gwaelod yn unig adeilad aml-llawr. Nid yw'n cyfeirio at nifer y fflatiau wedi'u meddiannu ar y llawr cyntaf a'r ail lawr uwchben y siop. Nid yw'n hysbys a oes meddianwyr mewn adeiladau cyfagos.*<br><br>Ym marn y Cyngor byddai'r newid arfaethedig yn achosi effaith annerbyniol ar amwynder y preswylwyr preswyl cyfredol ac yn y dyfodol uwchben a'r naill ochr i safle'r cais oherwydd sŵn, tarfu ac arogleuon. Ar y sail hwn ystyrir nad yw'r cais yn dderbyniol gan nad yw'n bodloni prawf vi) Polisi RD 1 Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych. |
| 5.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Office 2 Home, 1 Ffordd Wellington, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1AY<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1019<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid defnydd o siop (Defnydd Dosbarth A1) i fwyta/tecawê bwyd poeth (Defnydd Dosbarth A3).<br><br>**YMGEISYDD:** Mr. Muhammad Yasir Malik, Fflat 4, 17 – 19 Stryd Cinmel, Y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD****: Gwrthwynebiad ar y sail isod:*<br><br>1. *Mae'r safle wedi'i leoli yn agos at gyffordd y Stryd Fawr a Ffordd Rusell – y gyffordd brysuraf yn y Rhyl fwy na thebyg gyda defnydd sylweddol gan draffig ar ffurf cerbydau'n gadael y Rhyl tuag at un ai Prestatyn i'r dwyrain neu ar hyd yr A525 i'r de. Ni chaniateir parcio ar y stryd yn agos at yr adeilad.* |

| | |
|---|---|
| | *Er bod yr ymgeisydd yn honni nad yw parcio cerbydau yn berthnasol i'r cais, bydd natur y defnydd arfaethedig yn arwain yn ddiamheuol at gerbydau'n cael eu parcio y tu allan i'r adeilad. Mae profiad mewn lleoliadau eraill tebyg yn awgrymu, yn ychwanegol at gwsmeriaid yn parcio, bydd y rhai sy'n danfon nwyddau bwyd yn parcio yn union wrth ymyl yr adeilad wrth gasglu archebion i'w cludo ar ran cwsmeriaid. Felly mae'r Cyngor o'r farn y byddai'r gwasanaeth tecawê arfaethedig yn arwain at barcio ar y stryd yn y gyffordd brysur hon ac yn creu gwrthdaro gyda defnyddwyr eraill y ffordd a cherddwyr.*<br><br>*Dywed y Cyngor y byddai hyn yn groes i baragraff viii Polisi RD1 Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych.*<br><br>2. *Nid yw'r cais yn cyfeirio at nifer y fflatiau wedi'u meddiannu ar y llawr cyntaf a'r ail lawr uwchben y siop. Nid yw'n hysbys a oes meddianwyr mewn adeiladau cyfagos. (Mae'r adeilad yn rhannu ffin gyda eiddo ar y Stryd Fawr hefyd a allai gynnwys fflatiau preswyl wedi'u meddiannu.)*<br><br>Ym marn y Cyngor byddai'r newid arfaethedig yn achosi effaith annerbyniol ar amwynder y preswylwyr preswyl uwchben, y naill ochr i a thu ôl i safle'r cais oherwydd sŵn, tarfu ac arogleuon. Ar y sail hwn ystyrir nad yw'r cais yn dderbyniol gan nad yw'n bodloni prawf vi) Polisi RD 1 Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych.<br><br>Nodwyd fod unedau adwerthu eraill wedi'u lleoli yng nghyffiniau'r adeilad wedi mynegi pryderon am arogleuon yn effeithio ar eu busnes. |

6. **DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd yr Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………...